

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Mae'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau yn effeithio ar faes datblygu economaidd heb ei gadw'n ôl, ac yn sbarduno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
3. At hynny, caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd ei sbarduno gan Baragraff 34 y Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli (*'Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales'*) (Ebrill 2018)) sy'n awgrymu bod Llywodraeth y DU yn ystyried bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol i osod "swyddogaeth a gadwyd yn ôl" ar awdurdod datganoledig yng Nghymru, sy'n cael ei roi gan y Bil Rheoli Cymorthdaliadau.
4. Cyflwynwyd y Bil Rheoli Cymorthdaliadau ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2021. Gellir gweld y Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3015>

Amcan(ion) y Polisi

5. Amcan polisi nodedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y DU) yw rhoi cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig ar waith yn y DU sy'n adlewyrchu buddiannau strategol ac amgylchiadau cenedlaethol penodol y DU, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol y mae awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ar gymorthdaliadau drwyddo.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
7. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â rheoli cymorthdaliadau yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Hyd at 31 Rhagfyr 2020, roedd y DU yn rhwym wrth reolau cymorth gwladwriaethol yr UE. Nid dyna oedd yr achos o 1 Ionawr 2021 ymlaen. O 1 Ionawr 2021 ymlaen, roedd yn ofynnol i'r DU gydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu o ran rheoli cymorthdaliadau. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r DU gydymffurfio ag unrhyw ymrwymïadau eraill y mae wedi'u gwneud ar reoli cymorthdaliadau, gan gynnwys y rhai yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau a Mesurau Gwrthbwysol; Protocol Gogledd Iwerddon; ac

unrhyw Gytundebau Masnach Rydd gyda gwledydd eraill. Diben y Bil yw nodi cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig newydd, sy'n clymu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth uchod. Mae'r Bil yn darparu bod swyddogaethau a arferai gael eu dal ar lefel yr UE, bellach yn cael eu dal ar lefel ddomestig gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd neu'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadlaethau.

8. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

- a) darparu fframwaith cyfreithiol sylfaenol i alluogi awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau yn unol â'r egwyddorion rheoli cymorthdaliadau a amlinellir ynddo. Bydd dyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried yr egwyddorion hyn a dim ond dyfarnu cymhorthdal os yw'n gyson â'r egwyddorion hyn;
- b) ymestyn cylch gwaith cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU o'r gyfundrefn bresennol sy'n wynebu tuag allan i gynnwys Marchnad Fewnol y DU;
- c) Cyflwyno nifer bach o waharddiadau i atal awdurdodau cyhoeddus rhag rhoi cymorthdaliadau gydag effeithiau economaidd gorystumiol neu niweidiol;
- d) dan amgylchiadau cyfyngedig, darpariaeth ar gyfer amryw o lwybrau dyfarnu cymorthdaliadau wedi'u rhagfyrhau, y mae rhai ohonynt heb gael eu diffinio eto;
- e) gosod gofyniad i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio cronfa ddata tryloywder y DU er mwyn gallu monitro a chraffu ar wariant sylfaenol dan y gyfundrefn;
- f) sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) i fonitro a goruchwyllo'r gyfundrefn newydd. Bydd gan yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau hefyd swyddogaethau cynghori cyfyngedig ar gyfer cymorthdaliadau y mae'n ystyried eu bod yn fwy tebygol o ystumio cystadleuaeth a buddsoddiad y DU a masnach ryngwladol;
- g) grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol i gyfeirio dyfarniadau cymhorthdal i'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau i'w hadolygu, yn ogystal â gosod cyfnodau 'callio' cyfyngedig ar ôl yr adolygiad;
- h) galluogi partiön â diddordeb i herio'r penderfyniadau ar gymorthdaliadau am resymau adolygiad barnwrol yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadlaethau;
- i) creu darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gyhoeddi canllawiau statudol ar gymhwysu'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad amdanynt

9. Ystyriwn fod cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau canlynol:

Rhan 2 – Gofynion Rheoli Cymorthdaliadau

Pennod 1 – Egwyddorion

10. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r gofynion a fydd yn berthnasol i gymorthdaliadau a chynlluniau cymorthdaliadau.
11. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymal 12, ar gymhwyso egwyddorion rheoli cymorthdaliadau, a chymal 13, ar gymhwyso'r egwyddorion ynni a'r amgylchedd. Mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Pennod 2 – Gwaharddiadau a Gofynion Eraill

12. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r mathau o gymorthdaliadau sydd wedi'u gwahardd neu sydd wedi cyfyngu ar oblygiadau hyn, a'r hyn sy'n cyfateb i Wasanaethau o Fudd Economaidd y Cyhoedd.
13. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 14-31, sy'n cwmpasu; gwaharddiadau cyffredinol, mentrau ar drai neu ansolfent, gwaharddiadau a gofynion penodol eraill, cynlluniau cymorthdaliadau a chymorthdaliadau neu gynlluniau sy'n destun atgyfeiriad gorfodol. Mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Pennod 3 – Tryloywder

14. Mae'r darpariaethau hyn yn gosod gofynion mewn perthynas â'r gronfa ddata cymorthdaliadau.
15. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymal 33, sy'n cwmpasu dyletswydd i gynnwys gwybodaeth yn y gronfa ddata cymorthdaliadau: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Rhan 3 – Eithriadau

Pennod 1 – Cyflwyniad

16. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyflwyno eithriadau'r cymorthdaliadau.
17. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymal 35, gan gyflwyno eithriadau: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.

Pennod 2 – Cymorth Ariannol Lleiaf Posibl a SPEI

18. Mae'r darpariaethau hyn yn gosod y gofynion mewn perthynas â chymorth ariannol lleiaf posibl a Chymorth Gwasanaethau o Fudd Economaidd y Cyhoedd (SPEI).

19. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 36-40, sy'n cwmpasu; cymorth ariannol lleiaf posibl, Gwasanaethau o Fudd Economaidd y Cyhoedd ac uno a chaffael gwasanaethau: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod gan gymalau 36-39 ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau. Er nad yw cymalau 40, 41 a 42, sy'n cwmpasu uno a chaffael, eithriadau ar gyfer cymorth SPEI, a darpariaethau atodol a deongliadol, yn gosod swyddogaethau'n uniongyrchol ar yr Awdurdodau hynny, bydd cynnwys y cymalau'n effeithio ar y ffordd y mae'r Awdurdodau hynny'n ymarfer eu swyddogaethau.

Pennod 3 – Argyfyngau ac ati.

20. Mae'r darpariaethau hyn yn creu eithriadau y gellir eu defnyddio os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud eu bod yn gymwys.

21. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 43 a 44, sy'n cwmpasu trychinebau naturiol ac amgylchiadau eithriadol eraill ac argyfyngau economaidd cenedlaethol neu fyd-eang: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Pennod 4 – Eithriadau Amrywiol Eraill

22. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi pa eithriadau eraill allai fod ar gael.

23. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 45 i 51, sy'n cwmpasu eithriadau ar gyfer diogelwch gwladol, polisi ariannol Banc Lloegr, sefydlogrwydd ariannol, cymorthdaliadau cymynrodd a chytundeb ymadael, a mesurau treth: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a chaiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Rhan 4 – Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd: Atgyfeiriadau a Swyddogaethau

Pennod 1 – Swyddogaethau ar Atgyfeiriadau Cymorthdaliadau a Chynlluniau

24. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r broses o atgyfeirio cymorthdaliadau a chynlluniau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

25. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 52 i 64, sy'n cwmpasu atgyfeiriadau gorfodol a gwirfoddol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, cynnwys adroddiad yr Awdurdod hwnnw ac atgyfeiriadau ar ôl dyfarnu: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd ac mae'r cymalau hynny, ac eithrio cymalau 58 (cyfarwyddyd galw i mewn yn dilyn atgyfeiriad gwirfoddol), 59 (adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dilyn atgyfeiriad gorfodol neu wirfoddol) a 62 (adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dilyn atgyfeiriad ar ôl dyfarnu), yn gosod swyddogaethau ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Pennod 2 – Swyddogaethau Cyffredinol

26. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r gofynion cyffredinol mewn perthynas â rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

27. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 65 i 67, gan gwmpasu monitro ac adrodd ar reoli cymorthdaliadau, adroddiad blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a phwerau casglu gwybodaeth: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.

Pennod 3 – Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau

28. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau ac ar gyfer y gwaith a wneir gan y grwpiau rheoli cymorthdaliadau.

29. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 68 a 69, sy'n cwmpasu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau ac yn cyfeirio at grwpiau rheoli cymorthdaliadau: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.

Rhan 5 – Gorfodi

30. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r mecanwaith y gallai darpariaethau'r Bil gael eu gorfodi ganddo ac am y pwerau sydd ar gael i awdurdodau cyhoeddus lle mae cymhorthdal wedi cael ei gamddefnyddio.

31. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 70 i 77, sy'n cwmpasu apeliadau i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadlaethau: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd ac mae'r cymalau hynny, ac eithrio cymalau 70 i 73 (sy'n cwmpasu adolygu penderfyniadau ar gymorthdaliadau, terfynau amser ar gyfer ceisiadau a phwerau'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadlaethau), yn gosod swyddogaethau ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Rhan 6 – Amrywiol a Chyffredinol

Pennod 1 – Amrywiol

32. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer cymhwyso Atodlen 3, canllawiau i'w cynhyrchu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rheolau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth, rheolau mewn perthynas â diwygio cymorthdaliadau a chynlluniau, pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â symiau gros a symiau sy'n cyfateb i arian gros a diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2021.
33. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 78 i 83, sy'n cwmpasu; cymorthdaliadau a chynlluniau mewn deddfwriaeth sylfaenol, canllawiau, datgelu gwybodaeth, diwygiadau i gymorthdaliadau a chynlluniau, swm arian parod gros o gymorth ariannol a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod gros a mân ddiwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2021: mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd a, heblaw am gymalau 82 (swm arian parod gros o gymorth ariannol a'r hyn sy'n cyfateb i arian gros) ac 83 (mân ddiwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2021), caiff swyddogaethau eu gosod ar Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru mewn perthynas â chymorthdaliadau.

Pennod 2 – Cyffredinol

34. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â materion cyffredinol mewn perthynas â'r Bil.
35. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â chymalau 86 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol), 89 (dehongli), 90 (rhychwant), 91 (cychwyn): mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.

Atodlenni

36. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas ag Atodlen 1 'Yr Egwyddorion Rheoli Cymorthdaliadau': mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.
37. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas ag Atodlen 2 'Yr Egwyddorion Ynni a'r Amgylchedd': mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.
38. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas ag Atodlen 3 'Cymorthdaliadau a Ddarperir gan Ddeddfwriaeth Sylfaenol': mae'r darpariaethau'n effeithio ar faes datganoledig datblygu economaidd.

Y rhesymau am greu'r darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

39. Mae rheoli cymorthdaliadau yn fater a gedwir yn ôl dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru, ac mae'r Bil yn berthnasol i Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith mai mater a gedwir yn ôl ydyw, mae'n effeithio ar fater datblygu economaidd heb ei gadw'n ôl, ac mae effaith y maes a gedwir yn ôl hwn yn codi rhai pryderon. Mae Llywodraeth y DU wedi deddfu yn hyn o beth gan eu bod nhw am gael dull y DU gyfan o reoli cymorthdaliadau.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y cafodd ei gyflwyno

40. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn y bydd y mesurau a gynigir yn y Bil yn rheoleiddio'r ddarpariaeth o gymorthdaliadau'n ddigonol yn y DU. Rydym yn ceisio fframwaith rheoleidiol manwl sy'n cynnig eglurder digonol ar bamedrau'r cymorth y gellir tybio ei fod yn cyfateb i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU ar gyfer cyrff dyfarnu cymorthdaliadau a busnesau sy'n buddsoddi yn y DU. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn y Bil yn parhau i fod yn rhai lefel uchel ac mae diffyg manylder ynddynt i gyflawni'r amcan hwn. Mae hyn yn arwain at roi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol ffurfio'r gyfundrefn yn y dyfodol heb fawr ddim craffu gan Senedd y DU a dim craffu ar gael i Weinidogion Cymru na'r Senedd.

41. Mae'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau yn grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol i gyfeirio dyfarniadau neu gynlluniau cymorthdaliadau ym meysydd polisi cymhwysedd datganoledig i'r rheoleidiwr cymorthdaliadau annibynnol ac yn ymestyn gofynion cyfnod segur (a elwir yn gyfnodau 'callio') ar ddyfarniadau neu gynlluniau wedi'u cyfeirio. O ddeddfu'r Bil, byddai'r pwerau hyn yn tanseilio pwerau hirsefydlog y Senedd a Gweinidogion Cymru i weithredu mewn perthynas â materion ym maes cymhwysedd datganoledig fel datblygu economaidd, amaethyddiaeth a physgodfeydd.

42. Ni fyddwn yn gallu argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

43. Gwrthwynebwn yn benodol elfennau canlynol y Bil.

Rhan 1 – Trosolwg a Dehongliad Allweddol

44. Mae Adran 10(4) ond yn caniatáu i Weinidogion y Goron greu cynlluniau cymorthdaliadau syml. O gofio bod y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn effeithio ar feysydd cyfrifoldeb datganoledig, dylid ymestyn y pŵer hwn i Weinidogion Cymru.

45. Mae Adran 10(5) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau cymorthdaliadau syml gael eu gosod gerbron y Senedd; os caiff y pŵer i godi'r fath gynlluniau ei ymestyn i Weinidogion Cymru, dylid ymestyn y gofyniad hwn i Senedd Cymru.

Rhan 2 – Gofynion Rheoli Cymorthdaliadau

46. Mae Adran 18, sy'n amlinellu'r gwaharddiad ar adleoli gweithgareddau, yn cynnwys symudiadau o fewn y DU ond nid yw'n pennu unrhyw gyfyngiad amser y mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol iddo. Mae hyn yn golygu y gellid parhau i herio yn ddamcaniaethol, hyd yn oed os caiff gweithgarwch ei adleoli sawl blwyddyn ar ôl i gymhorthdal gael ei ddarparu. Rhaid diffinio'r paramedrau y gall y cyfyngiad hwn weithredu ynddynt yn y Bil hwn er mwyn atal y camddefnydd ohono.
47. Mae Adran 31 yn gwahardd yn glir gymorthdaliadau neu gynlluniau cymorthdaliadau sy'n destun atgyfeiriadau gorfodol hyd nes i bob gweithgarwch gofynnol gael ei gwblhau. Bydd hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag diystyru'r cyfyngiadau hyn, hyd yn oed o'u cymhwyso at feysydd cyfrifoldeb datganoledig. O gofio'r ymyrraeth â chymhwysedd datganoledig y mae hyn yn ei gynrychioli, rhaid i'r Bil bennu llwybr i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiystyru'r fath ofyniad segur os oes angen digonol am bolisi.

Rhan 3 – Eithriadau

48. Mae Adrannau 43 a 44 yn amlinellu'r paramedrau y gellir darparu cymorthdaliadau ynddynt at ddibenion trychinebau naturiol, amgylchiadau eithriadol, argyfyngau economaidd cenedlaethol neu fyd-eang. Yn y ddau achos, mae'n dibynnu ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol yn datgan bod yr esemptiad yn berthnasol i ddigwyddiad. Rhaid i'r Bil ymestyn y pŵer hwn i Weinidogion Cymru neu o leiaf ddiffinio'r prosesau y gall Gweinidogion Cymru ofyn am y fath ddatganiad drwyddynt a herio unrhyw wrthodiad dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol.

Rhan 4 – Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Atgyfeiriadau a Swyddogaethau

49. Mae Adran 54 yn grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn y cyfnod callio yn dilyn atgyfeiriad gorfodol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd am hyd at 30 diwrnod os bydd adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi nodi diffygion difrifol yn asesiad yr awdurdod cyhoeddus (adran 54(4)). Ni roddwyd diffiniad o ran yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddiffyg difrifol', ac nid yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi gofyn ymlaen llaw am y fath estyniad i'r cyfnod callio; dylid diwygio'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau fel mai dim ond ar gais yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y gellir rhoi estyniad o'r fath.
50. Mae Adran 60(4) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw atgyfeiriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael ei wneud ymhen 20 diwrnod gwaith, naill ai o gofnodi'r dyfarniad ar y gronfa ddata Tryloywder neu o wneud y dyfarniad yn achos y Gwasanaethau o Fudd Economaidd y Cyhoedd. Dylid ymestyn y pŵer hwn i Weinidogion Cymru, neu o leiaf ddiffinio'r prosesau y gall Gweinidogion Cymru ofyn am y fath ddatganiad drwyddynt a herio unrhyw

wrthodiad dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol.

51. Mae Adran 61(7)(b) yn gwahardd yr Ysgrifennydd Gwladol rhag ymestyn y cyfnodau atgyfeirio ôl-ddyfarniad lle maent yn cyfeirio at gymorthdaliadau neu gynlluniau maent wedi'u gwneud. Nid yw'n glir a yw'r cyfyngiad hwn yn ymestyn i bob cymhorthdal/cynllun Busnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol. Os ydyw, dylai'r un cyfyngiad gwmpasu adrannau datganoledig cymharol. Fel arall, mae hyn o bosibl yn creu anghydbwysedd annerbyniol mewn pŵer rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ym meysydd cyfrifoldeb datganoledig.
52. Mae Adran 61(5) yn awgrymu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wrthod cais am estyniad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ond nid yw'n cynnig unrhyw baramedrau o ran pryd y gellid caniatáu gwrthodiad o'r fath. Rhaid diwygio'r Bil i amlinellu'r paramedrau hyn yn unol â hynny. Dylid hefyd rymuso Gweinidogion datganoledig cymharol i wrthod ceisiadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, neu i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol wrthod y cais ar eu rhan.
53. Mae Adran 65(7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd osod ger bron y Senedd adroddiadau ar eu hadolygiadau bob pum mlynedd o effeithiolrwydd y Bil Rheoli Cymorthdaliadau a'i effaith ar gystadleuaeth a buddsoddiad yn y DU. O gofio effaith y gyfundrefn ar feysydd polisi datganoledig, rhaid i'r gofyniad hwn gael ei ymestyn i'w osod ger bron Senedd Cymru.

Rhan 6 – Amrywiol a Chyffredinol

54. Mae Adran 79(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r rhai y maent yn ystyried eu bod yn briodol mewn perthynas â datblygu canllawiau manwl ar weithrediad cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU; Rhaid pennu Gweinidogion datganoledig at ddibenion ymgysylltiad gorfodol

Goblygiadau ariannol

55. Nid yw'n glir ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i'r Senedd, yn deillio o'r pwerau dan y Bil.

Casgliad

56. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yng nghymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymhell rhoi cydsyniad oni caiff y Bil ei ddiwygio i fynd i'r afael â'n pryderon.

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi
13 Gorffennaf 2021